
LEFEL 3

Astudiaethau achos o sut mae canolfannau cyfredol yn darparu ac yn amserlennu'r

# CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG LEFEL 3



www.cbac.co.uk

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Ysgol Uwchradd a Chweched Dosbarth Christ the King, Southport, Glannau Merswy

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Christ the King yn falch o'r addysg ragorol y maent wedi ei darparu ar gyfer miloedd o bobl ifanc ers agor yr ysgol yn 1965. Mae chweched dosbarth ffyniannus yn yr ysgol sy'n darparu amgylchedd rhagorol y mae eu myfyrwyr yn ffynnu ynddo'n academaidd ac yn bersonol. Wrth wraidd hyn mae eu penderfyniad i fodloni anghenion eu holl fyfyrwyr, i gynnal safonau academaidd uchel ac i ddarparu cyfleoedd i sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer cam nesaf eu taith mewn bywyd.

### Sandrine Calvignac yw Pennaeth Ieithoedd, Mentor Chweched Dosbarth a Chydlynydd Cymhwyster Project Estynedig yr ysgol

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**
Gall myfyrwyr blwyddyn 13 ddewis ei wneud os dymunant. Mae niferoedd yn amrywio rhwng 25 a 35. Roedd disgyblion blwyddyn 12 (yn y gorffennol) yn dewis 4 pwnc UG ac roeddem yn teimlo y byddai Cymhwyster Project Estynedig ar ben hynny'n ormod.

**Sut ydych chi wedi amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig yn eich canolfan?**
Mae pob grŵp yn cael awr yr wythnos er bod opsiynau rhai myfyrwyr yn gwrthdaro â sesiynau'r Cymhwyster Project Estynedig ac rwy'n cyfarfod â nhw ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i wneud iawn am yr amser coll. Dim ond 2 oruchwyliwr sydd gennym bob blwyddyn ac maent yn athrawon â chyfnodau digyswllt dros ben ar eu hamserlen. Felly, mae'r cydweithiwr sy'n goruchwylio gyda mi yn un gwahanol bob blwyddyn.

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**
Mae'n gost effeithiol defnyddio cyfnodau digyswllt dros ben. Awr yr wythnos fesul grŵp yw'r isafswm felly rwyf wedi gofyn am hyn.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**
Mae'n bwysig cael cyswllt rheolaidd gyda'r ymgeiswyr felly rwy'n gwerthfawrogi cael un sesiwn yr wythnos. Pan rwy'n rhydd, rwy'n ymuno â'r sesiwn dan arweiniad y goruchwyliwr sy'n darparu am y tro gyntaf.

Y peth fwyaf anodd yw dod o hyd i amser i eistedd gyda'r ymgeiswyr i gyd i'w cyfweld felly fel arfer rwy'n trefnu cyfarfod â nhw yn ystod amser cofrestru.

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**
Nid wyf yn disgwyl newid – nid oes unrhyw un wedi rhoi gwybod i mi o unrhyw newid at y dyfodol.

**A oes gennych unrhyw gyngor o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig i ganolfannau eraill?**

i) Dewiswch ymgeiswyr yn ofalus i sicrhau, cyn iddyn nhw wneud eu dewis, eu bod yn hollol glir o'r hyn sydd ynghlwm â'r Cymhwyster Project Estynedig ac o lwyth y gwaith.
ii) Ceisiwch wneud hyn â nifer fach yn gyntaf er mwyn dod i wybod a deall am y meini prawf asesu a'r manylebau.
iii) Sicrhewch fod yr ymgeiswyr yn cael o leiaf un sesiwn o un awr o hyd bob wythnos ar gyfer yr adran Elfen sy'n cael ei Haddysgu.
iv) Cyfwelwch ymgeiswyr yn ystod amser cofrestru yn y bore felly efallai y byddai'n syniad gofyn i symud i Dîm Bugeiliol CA5.
v) E-bostiwch y bwrdd arholi os ydych yn ansicr o unrhyw beth gan eu bod yn ymateb yn gyflym iawn.
vi) Defnyddiwch ganllaw'r athro a mynychwch ddigwyddiadau DPP y bwrdd arholi gan mai'r rhain yw'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf defnyddiol.
vii) Dylid rhwydweithio â chanolfannau lleol i ennill syniadau, profiad, awgrymiadau a deunyddiau.
viii) Gofynnwch am amser i wneud y cyflwyniadau yn gynnar yn y flwyddyn fel bod gennych y dyddiadau yr ydych am eu cael yng nghalendr yr ysgol.
ix) Cysylltwch â rhieni os nad yw ymgeiswyr yn cwrdd â therfynau amser gan y gall fod o help.
x) Sicrhewch fod y myfyrwyr yn ymchwilio i faes y maent yn angerddol amdano!

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Ysgol Ramadeg Colyton, Dyfnaint

Ers ei sefydlu yn 1546, mae Ysgol Ramadeg Colyton wedi mwynhau hanes hir a rhagorol. Mae traddodiad o ddisgwyliadau academaidd uchel yn perthyn i'r ysgol hon, wedi'i feithrin gan ddiwylliant sy'n gwerthfawrogi llwyddiant ym mhob gweithgaredd ac yn rhoi cefnogaeth lawn i ddatblygiad pob myfyriwr er mwyn llwyddo, ennill hunanhyder ac i fod yn ddysgwyr annibynnol, yn barod i gymryd eu lle fel dinasyddion cyfrifol yr 21ain ganrif.

**Andrew Gregson yw Dirprwy Bennaeth yr ysgol a Chydlynydd Cymhwyster Project Estynedig y Ganolfan.**

### I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?

Ar hyn o bryd mae holl fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn dechrau'r cymhwyster, er y bydd llawer yn rhoi'r gorau iddo neu i'w pedwerydd cymhwyster Safon Uwch cyn y dyddiad cyflwyno. Rydym yn ei ddechrau ym Mlwyddyn 12 gan fod amser cwricwlwm ar gael oherwydd bod Astudiaethau Cyffredinol wedi dod i ben.

### Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?

Mae'r Project Estynedig wedi'i amserlennu am ddau gyfnod o 70 munud bob pythefnos. Darperir y gwersi i grwpiau tiwtor h.y. un athro i 28-30 o fyfyrwyr, er y bydd goruchwyliwr ar gael i'r myfyrwyr y tu allan i'r sesiynau hyn hefyd. Mae'r gwersi wedi'u hamserlennu yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd TGCh sydd hefyd yn ddefnyddiol iawn.

### Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?

Mae hyn yn llawer gwell na'r hen fodel a oedd yn cynnwys tynnu'r holl fyfyrwyr oddi wrth eu hamserlen ar gyfer diwrnodau astudio Project Estynedig yn ystod y flwyddyn. Mae'r dull wedi'i amserlennu yn sicrhau datblygiad cyson y project.

### Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?

Mae'n gweithio'n dda gan fod myfyrwyr yn gallu datblygu meddwl yn fanwl yn gynnar yn y broses, gan felly eu helpu i wneud y penderfyniadau iawn ynghylch y testun a'r cwestiwn.

### Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?

Rydyn ni'n ystyried addysgu'r sesiynau wedi'u hamserlennu mewn timau h.y. dau athro i bob dosbarth.

### A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?

Mae'n gymhwyster difyr i fyfyrwyr, gan eu bod yn rheoli'r testun a ymchwiliwyd. Mae hefyd yn gymhwyster sydd wirioneddol yn hygyrch i bawb ac mae'n fodd gwych o baratoi ar gyfer astudiaeth israddedig. Wrth amserlennu'r sesiynau byddwn yn sicr yn argymell sicrhau bod strwythur clir i'r cwrs a bod y myfyrwyr i gyd yn ei gymryd o ddifrif. Oherwydd bod cymwysterau UG wedi dod i ben, mae'r Cymhwyster Project Estynedig yn gwneud mwy o synnwyr nawr nag erioed.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Ysgol Gatholig St Edmund Campion, Birmingham

Mae Ysgol St. Edmund Campion yn bodoli fel rhan o bartneriaeth o gartref, plwyf ac ysgol, sydd gyda'i gilydd yn addysgu ac yn trosglwyddo'r Ffydd i'w plant. Maen nhw'n anelu i gynorthwyo rhieni yn eu rôl a dderbyniwyd gan Dduw fel addysgwyr drwy ddarparu addysg uwchradd Gatholig.

### Sandra Griffiths yw Arweinydd Dysgu Ôl-16 yn ogystal â Chydlynydd y Cymhwyster Project Estynedig

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**

Rydym yn cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ym mlynyddoedd 12 a 13. Rydym wedi dewis ei wneud fel hyn gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i ni gynnig y cwrs ac roeddem yn gwybod bod nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 13 â diddordeb cwblhau'r project. Rydym wedi sylwi, eisoes, gwahaniaeth sylweddol yn ansawdd y gwaith rhwng y ddwy flwyddyn ac rydym wedi sylweddoli nad oedd yr aeddfedrwydd gan rai myfyrwyr Blwyddyn 12 i gynnal project yn ogystal â'u cymwysterau Lefel 3 eraill. Am y rheswm hwn, byddwn fwy na thebyg yn parhau i gynnig y cymhwyster i'r ddwy flwyddyn.

**Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?**

Mae gennym ddwy sesiwn awr o hyd wedi'u hamserlennu bob wythnos. Mae 17 myfyriwr gennym ar draws blynyddoedd 12 a 13 ac mae dau oruchwyliwr gennym.

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**

Rydym wedi dewis y model hwn oherwydd cyfyngiadau staffio ac amserlennu. Mae pynciau lefel 3 eraill yn cael eu dosbarthu yn flociau ac mae'r Cymhwyster Project Estynedig yn ychwanegol i'r blociau hyn. Mae'n golygu bod y myfyrwyr i gyd yn gallu cael mynediad at Gymhwyster y Project Estynedig os dymunant.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**

Mae dwy wers yr wythnos wedi ei gwneud yn anodd mynd drwy elfennau a addysgir yr oriau dysgu dan arweiniad yn ddigon cyflym. Fel cydlynwyr/goruchwylwyr rydym yn mwynhau gweithio gyda'r myfyrwyr. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn gweld beth maen nhw'n dymuno ei astudio yn fanwl ac wedi bod yn galonogol iawn gweld sut mae'r Cymhwyster Project Estynedig wedi gwneud iddyn nhw ddysgu datrys pethau dros eu hunain gan na allant ddibynnu ar athrawon i gyflwyno'r cynnwys.

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**

Bydd amserlennu yn parhau yn yr un modd. Nid ydym yn disgwyl i nifer ein cofrestriadau godi gormod gan fod ein chweched dosbarth yn fach (130 o fyfyrwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd)

Hoffem gael mwy o oruchwylwyr, yn enwedig rhai pwnc penodol, ond mae hyn yn codi pryderon o ran amserlennu staff, hyfforddiant ac anghenion ariannu. Rydym yn dibynnu ar ewyllys da ar hyn o bryd! Nid oes cyllideb adrannol gennym ar gyfer y Cymhwyster Project Estynedig ar y funud ac rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn ddelfrydol.

**A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?**

Rwyf yn sicr yn credu bod y Cymhwyster Project Estynedig yn werthfawr ac yn herio myfyrwyr.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Coleg Exeter, Dyfnaint

Coleg trydyddol yn ninas Caerwysg yw Coleg Exeter, sy'n darparu addysg bellach i fyfyrwyr 16-18 oed, yn cynnwys prentisiaethau, Safon Uwch a'r Fagloriaeth Ryngwladol, yn ogystal ag amrediad o gyrsiau i ddisgyblion 14-16 mlwydd oed, addysg uwch a chyrsiau oedolion, cyrsiau addysg gymunedol a datblygiad proffesiynol.

Sefydlwyd Coleg Exeter yn 1970 fel y coleg trydyddol cyntaf yn Lloegr. Mae'r coleg yn cynnig addysg uwch mewn partneriaeth â sefydliadau yn cynnwys Prifysgol Exeter, rhwydwaith Colegau Prifysgol Plymouth, Prifysgol St Mark & St John a Phrifysgol Kingston.

### Jan England yw cymeradwywr teitlau a Chydlynydd Cymhwyster Project Estynedig y ganolfan

#### I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?

Mae ein myfyrwyr yn cwblhau'r Cymhwyster Project Estynedig yn eu hail flwyddyn Safon Uwch yn ychwanegol at eu cymwysterau eraill. Yn ystod 2017-2018, gwnaethom rai mân newidiadau i'n model cyflwyno, ond ar ben y diwygiadau Safon Uwch, mae dysgwyr blwyddyn 12 bellach hefyd yn gallu cymryd rhan mewn cwrs cyn y Cymhwyster Project Estynedig yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn i'w paratoi ar gyfer y Cymhwyster Project Estynedig yn ystod yr ail flwyddyn.

Mae'n well gennym gael myfyrwyr ail flwyddyn yn hytrach na blwyddyn gyntaf gan fod aeddfedrwydd addysgiadol ganddynt ac arferion astudio i gefnogi eu project. Gall dysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen i Brifysgol hefyd gysylltu eu Cymhwyster Project Estynedig yn fwy clir â'r cwrs prifysgol o'u dewis.

#### Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?

Mae'r holl fyfyrwyr yn cael un wers yr wythnos o fis Medi tan ddiwedd tymor y gwanwyn. Mae'r wers hon yn cael ei haddysgu gan y goruchwyliwr. Tua 10 o fyfyrwyr sydd ym mhob grŵp. Fodd bynnag, i'r myfyrwyr, mewn gwirionedd bydd y Cymhwyster Project Estynedig yn dechrau yn nhymor yr haf blwyddyn 12 wrth iddynt fynegi diddordeb a mynychu sesiynau cyflwyniadol i ddysgu am yr hyn mae'n ei olygu ac i dderbyn hyfforddiant ar sgiliau ymchwil. Mae llawer ohonynt yna'n dechrau'r broses ymchwil dros wyliau'r haf rhwng blynyddoedd 12 a 13 ac yn dychwelyd i'r coleg yn barod i lunio eu teitl gweithio. (Gofynnwn iddynt, yn gyntaf, i gwblhau adrannau 1-10 EPF1 cyn iddyn nhw orffen am yr haf er mwyn dangos ymrwymiad.)

#### Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?

Wrth i ni ddechrau cynnig y Cymhwyster Project Estynedig yn 2012, roeddem yn dymuno cael arbenigwyr pwnc fel goruchwylwyr ond mewn coleg mor fawr, roedd hyn yn gwneud amserlennu staff yn eithaf cymhleth. Rydym bellach yn gweithredu model lle bo'r goruchwyliwr yn darparu rhaglen y dysgu ac addysgu a hefyd yn cynnal goruchwyliaeth 1:1. Gan eu bod bellach yn annhebygol o fod yn arbenigwyr pwnc, nid ydym yn teimlo bod hyn yn rhwystro eu gallu i arwain a hwyluso'r myfyrwyr ar eu taith Cymhwyster Project Estynedig.

#### Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?

Rydym yn hapus iawn â'r canlyniadau dros y blynyddoedd ac wedi bod yn hapus i helpu CBAC i beilota cyflwyniadau'r Cymhwyster Project Estynedig ar-lein.

#### Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?

I barhau i fireinio a siapio cynnig ein Cymhwyster Project Estynedig, yn enwedig cyflwyno modiwlau 'Paratoadau ar gyfer y Cymhwyster Project Estynedig' ym mlwyddyn 12. Rydym yn gwbl ymroddedig i barhau â rhaglen Cymhwyster Project Estynedig ac yn teimlo bod y model cyfredol ym mlwyddyn 13 yn effeithiol. Hefyd, mae ein model o gyfarfod unwaith bob wythnos i a) ddarparu'r rhaglen dysgu ac addysgu a b) bod ar gael i oruchwylio yn ôl yr angen bob wythnos (yn ogystal â dethol amseroedd penodol yn ystod y flwyddyn i gynnal y 3 chyfarfod goruchwylio ffurfiol) yn gweithio'n dda.

#### A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?

Fel y nodwyd uchod, byddem yn argymell ystyried slot wedi'i amserlennu a'i ddynodi'n ar amserlenni pob dysgwr i sicrhau darpariaeth effeithiol yr elfennau a addysgir a chefnogaeth ddigonol i ddysgwyr. Mae cynllun gwaith manwl i danategu'r elfennau a addysgir a chronfa o adnoddau sy'n gallu cefnogi amrediad o fathau o brojectau hefyd yn amhrisiadwy i sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Coleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg addysg bellach yn Abertawe, Cymru. Fe'i ffurfiwyd yn 2010 drwy uno Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe. Mark Jones, pennaeth Coleg Pen-y-bont yn flaenorol, yw'r pennaeth ers Gorffennaf 2013. Gweledigaeth y coleg yw bod y "Coleg gorau yng Nghymru".

**Darlithydd Seicoleg yw Nikki Roderick ac mae'n gyfrifol am y myfyrwyr Cymhwyster Project Estynedig sy'n dymuno ymgymryd â Phroject Estynedig Seicoleg.**

### I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?

Rydym wedi cynnig y Cymhwyster Project Estynedig mewn Seicoleg a Chymdeithaseg ers tua 7 mlynedd i fyfyrwyr U2 (Blwyddyn 13) sydd wedi derbyn gradd A neu B yn y pwnc y maent am fynd ar ei drywydd yn y Cymhwyster Project Estynedig. Eleni rydym wedi cyflwyno'r cymhwyster ymhellach felly rydym bellach yn cynnig y Cymhwyster Project Estynedig mewn Seicoleg, Cymdeithaseg, Saesneg, Cemeg a Hanes.

### Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?

Mae'r Cymhwyster Project Estynedig wedi'i amserlennu am 2 awr bob wythnos ar brynhawn dydd Mercher tan y gwyliau Pasg. Mae un darlithydd yn gyfrifol am y Cymhwyster Project Estynedig ym mhob un o'r pynciau uchod ac mae rhwng 10 a 20 o fyfyrwyr ym mhob grŵp pwnc (yn dibynnu ar y flwyddyn), felly mae pob darlithydd yn gyfrifol am ddarparu deunydd i fyfyrwyr y Cymhwyster Project Estynedig a'u goruchwylio yn eu grŵp pwnc, heb ystyried canolbwynt arbenigol penodol y Cymhwyster Project Estynedig.

### Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?

Datblygodd y model hwn yn naturiol. Yn gyntaf, teimlwyd y byddai ei gynnig ar brynhawn dydd Mercher yn galluogi'r rhan fwyaf o fyfyrwyr i allu dod i slotiau'r dosbarth. Yn ail, roedd cael un darlithydd yn gyfrifol am bob grŵp pwnc yn haws ei amserlennu: mae ein contractau yn seiliedig ar oriau addysgu cyswllt blynyddol felly os mai dim ond un darlithydd sy'n gyfrifol gellid rhoi 2 awr ar eu hamserlen waeth beth fo maint y dosbarth. Pe byddai'r cyfrifoldeb yn perthyn i fwy nag un darlithydd byddai'n rhaid ailystyried yr amserlen os byddai grŵp llai y flwyddyn honno, am resymau logistaidd.

### Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?

Mae gan y model ei gryfderau a'i wendidau. Mae prynhawn dydd Mercher yn gyffredinol yn amser da i gynnig y dosbarthiadau gan fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn rhydd ond nid yw myfyrwyr sy'n gwneud Academi Chwaraeon fel arfer ar gael. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r myfyrwyr hyn yn dewis peidio â gwneud Project Estynedig. Mae cael un aelod o staff yn gyfrifol am bob grŵp pwnc yn caniatáu cymedroli pob pwnc ac yn gwneud rheoli ar draws y pynciau yn haws. Fodd bynnag gallai'r llwyth addysgu fod yn gymharol drwm, yn enwedig yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf wrth ddod yn gyfarwydd â gofynion y Cymhwyster Project Estynedig a datblygu system o ddarparu a goruchwylio.

### Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?

Rydym yn bwriadu cadw'r model yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd dros y 3 blynedd nesaf, er ein bod yn gobeithio ei gyflwyno i fwy o bynciau.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Ysgol Ramadeg Guernsey a Chanolfan Chweched Dosbarth

Ysgol ramadeg gyhoeddus wedi'i lleoli yn St Andrew's yn Guernsey a agorwyd yn 1985 yw''r Ysgol Ramadeg a Chanolfan Chweched Dosbarth. Motto'r ysgol yw Qui veult peult: 'Those who want to, can'.

Mae'r ysgol rhyw gymysg hon ar gyfer myfyrwyr 11-18 oed ac mae gofyn pasio'r profion 11-plus i rai 11-16 oed i gael eich derbyn. Gall myfyrwyr o Feilïaeth Guernsey fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, mae myfyrwyr o ysgolion uwchradd eraill yn Guernsey sydd am fynd ar drywydd Safonau Uwch neu Raglen Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol yn trosglwyddo i'r ysgol ar ôl TGAU.

### Mae Susanna Good yn Athro Seicoleg a Chymdeithaseg a Chydlynydd y Cymhwyster Project Estynedig

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**

Cwrs i flwyddyn 13 yn unig yw hwn. Paratoir myfyrwyr ym mlwyddyn 12 gyda sgiliau astudio fel rhan o raglen tiwtor a gallan nhw ddewis cymhwyso eu sgiliau i'w Cymhwyster Project Estynedig yn y flwyddyn ganlynol os dymunent.

Mae myfyrwyr o bob gallu yn cael eu derbyn ar y Cymhwyster Project Estynedig. Mae'r mwyafrif o flwyddyn 13 yn cwblhau'r cwrs hwn.

**Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?**

Rydym yn cynnal Rhaglen Gyfoethogi Bersonol (PEP). Cynigir amrywiaeth o gymwysterau, gweithgareddau a chwaraeon i fyfyrwyr. Maen nhw'n cael eu hannog i wneud dewis a fydd yn eu rhoi yn y lle gorau i symud ymlaen i'w cam nesaf.

Maen nhw'n cael eu hamserlennu am un sesiwn addysgu yr wythnos, sydd naill ai'n grŵp llai gyda goruchwyliwr neu gyda'r cydlynydd fel grŵp cyfan i dderbyn gwybodaeth generig (cyfeiriadu, ffynonellau, meini prawf asesu, ac ati).

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**

Mae'n ffitio'n dda yn ein system gyfredol.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**

Yn dda... rydym yn gweithio ar sut i leihau'r gyfradd athreuliad gan fod myfyrwyr yn aml yn cofrestru fel opsiwn wrth gefn rhag ofn eu bod ei angen ac yna'n rhoi'r gorau i'r Cymhwyster Project Estynedig os nad yw'r brifysgol maen nhw'n ceisio amdani yn cynnig unrhyw fonws.

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**

Rydym wedi ystyried tynnu'r Cymhwyster Project Estynedig oddi ar ein system Rhaglen Gyfoethogi Bersonol a'i redeg fel ei adran ei hun gyda staff rheolaidd bob blwyddyn. Gall hyn fod yn opsiwn gwell gyda'r cyrsiau llinol. Dim ond Blwyddyn 13 fyddai'n cwblhau'r Cymhwyster Project Estynedig.

**A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?**

Mae cael set allweddol o staff ar y Cymhwyster Project Estynedig wirioneddol yn helpu i ddarparu a marcio'r Projectau Estynedig. Rydym yn tueddu i gael niferoedd mawr yn ein canolfan, byddwn yn cynghori uchafswm o 12 mewn grŵp.

Mae un sesiwn yr wythnos yn gweithio'n dda i ni. Mae drafft cyntaf gennym ar ôl y Nadolig.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Coleg Kingston, Llundain

Coleg Addysg Bellach, Uwch ac Oedolion wedi'i leoli yn Kingston upon Thames, Llundain Fwyaf, Lloegr yw Coleg Kingston. Mae pedwar campws yn nhref Kingston.

Ym mis Chwefror 2013, dyfarnodd Ofsted Radd 2 – 'Da' i Goleg Kingston, a olygai fod y Coleg yn un o'r ychydig golegau yn Llundain oedd â safonau academaidd a oedd yn gwella.

**Brittany Bainbridge yw'r Arweinydd Tîm – Cydlynydd Cynnydd Bugeiliol ac Academaidd yn ogystal â'r Cymhwyster Project Estynedig.**

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**

Blwyddyn 13 yn unig – mae hyn yn seiliedig ar eu presenoldeb a'u perfformiad mewn ffug arholiadau (h.y. mae'n rhaid iddyn nhw fodloni eu GMT i wneud y Cymhwyster Project Estynedig). Eleni, rhoddais dasg iddyn nhw i'w chwblhau dros yr haf ac os oedden nhw'n cwblhau hyn (yn ogystal â'r meini prawf eraill), roedden nhw'n cael cymryd rhan.

**Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?**

Rydym yn cynnal un wers wedi'i hamserlennu bob wythnos a sesiynau 1:1 bob 4-6 wythnos. Rwyf ar hyn o bryd yn cefnogi 13 o fyfyrwyr ar fy mhen fy hun.

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**

Rydym ar hyn o bryd yn rhedeg 'blwyddyn dreial' ac mae prinder staff, ond rydym am roi cyfle i fyfyrwyr awyddus.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**

Rwyf wedi gorfod tynnu dau fyfyriwr yn ôl eisoes gan eu bod yn teimlo ei fod yn llethol, ond roedd gen i amheuon am y ddau yma yn y lle cyntaf. Mae'r myfyrwyr eraill yn ffynnu!

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**

Rwy'n debygol o geisio dechrau'r cwrs yn gynharach eleni; ar ôl gwyliau'r Pasg o bosibl gan ei bod yn annhebygol y byddem yn gallu newid y model amserlennu. Oni bai bod staff mwy dibynadwy yn cael eu cyflogi, byddaf yn cadw'r nifer o gofrestriadau'n isel (10-15 bob blwyddyn).

**A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?**

Ddim eto gan mai hon yw fy mlwyddyn gyntaf!

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Ysgol Oldfield, Caerfaddon

Sefydlwyd Ysgol Oldfield yn 1892 i wasanaethu dinas Caerfaddon; yn 1959 symudodd yr ysgol o ganol y ddinas i dir amaethyddol ar gyrion gorllewinol y ddinas, sy'n edrych dros Ddyffryn Afon Avon, ac mae bellach yn denu disgyblion o ardal ehangach o lawer yn cynnwys cyrion dwyreiniol Bryste.

**Graham Nash yw'r Pennaeth Cynorthwyol – Pennaeth y Chweched Dosbarth yn ogystal â Chydlynydd y Cymhwyster Project Estynedig**

### I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?

Yn ein model cwricwlwm newydd (yn dechrau eleni) mae myfyrwyr Blwyddyn 12 yn ymgymryd â thri chymhwyster Safon Uwch ac un o'r Cynnig Oldfield – mae hyn yn cynnwys y Cymhwyster Project Estynedig, Dyfarniad Celfyddydau, Mathemateg Graidd, Mathemateg Bellach UG. Rydym yn arwain myfyrwyr tuag at y dewis sy'n gweddu orau iddyn nhw drwy sesiynau un-i-un. Y llwybr mwyaf poblogaidd a phriodol yw'r Cymhwyster Project Estynedig, gyda thua 80% o'r myfyrwyr yn dewis yr opsiwn hwnnw. Mae'n eu galluogi i deilwra rhywbeth penodol i'r hyn maen nhw'n ei wneud yn y dyfodol, datblygu sgiliau yr ydym yn gwybod sy'n ddefnyddiol yn y Safon Uwch ac Addysg Uwch.

### Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?

Mae holl bynciau Cynnig Oldfield, yn cynnwys y Cymhwyster Project Estynedig, yn rhan o'r amserlen. Ar gyfer y Cymhwyster Project Estynedig, tair gwers un awr o hyd ar draws y bythefnos yw'r slot. Rydym yn teimlo bod hyn yn rhoi digon o amser ar gyfer yr elfen a addysgir (rydym yn teimlo bod ei gwerth yn mynd tu hwnt i'w pherthnasedd i'r Cymhwyster Project Estynedig gan fod modd trosglwyddo'r sgiliau hyn trwy'r holl gyfnod Safon Uwch) yn ogystal â'r cyfarfodydd goruchwylio dilynol. Mae gennym ddau aelod o staff – fi fy hun ac un arall sydd wedi bod ar eich hyfforddiant DPP. Rydym nawr wedi rhannu'r myfyrwyr rhyngom. Rydym yn Chweched Dosbarth bach felly mae hyn yn rhoi tua 15 myfyriwr yr un i ni.

### Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?

Roeddwn i am i Gymhwyster y Project Estynedig gael statws go iawn. Mae ein canlyniadau Cymhwyster Project Estynedig yn gyffredinol wedi bod yn dda ond yn ei hanfod roeddwn yn ei redeg ar fy mhen fy hun heb unrhyw amser gwersi penodol. Nid oeddwn yn teimlo fy mod yn gwneud cyfiawnder â'r elfen a addysgir. Hefyd, o'r blaen, roedd myfyrwyr yn ei ddewis os dymunent ac yn aml yn dewis peidio â'i ddilyn – rwy'n argyhoeddedig y bydd mwy o fyfyrwyr yn gorffen y cymhwyster y ffordd hon. Mae hyn yn well i'r myfyrwyr ac rwy'n amau y bydd hyn yn arwain at Brojectau Estynedig o ansawdd uwch a chanlyniadau gwell. Mae'n gwneud yr holl beth yn fwy ffurfiol.

### Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?

Yn dda iawn – mae myfyrwyr yn sicr wedi'u paratoi'n well nag yr oedden nhw'n arfer bod ac mae ffocws gwell ganddynt ar y broses – fel y dylai fod.

### Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?

Rydym yn cadw'r model hwn.

### A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?

Ymrwymwch iddo – peidiwch â meddwl mai rhywbeth y gallwch ei wneud yn rhad ydyw a disgwyl i fyfyrwyr gael y gorau ohono. Rwy'n argyhoeddedig bod manteision pellgyrhaeddol i'r myfyriwr o gael cwrs Project Estynedig wedi'i addysgu a'i ddarparu'n dda.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Coleg Paston, North Walsham, Norfolk

Mae Coleg Paston yn credu mewn creu amgylchedd cywir ar gyfer dysgu – mae eu henw da am addysgu arbenigol, arweiniad a chefnogaeth, cysylltiadau trafnidiaeth da, cefnogaeth arbenigol ar gyfer ymgeiswyr Rhydgrawnt a mynediad Prifysgol yn ogystal â chanlyniadau academaidd rhagorol yn sicrhau bod eu myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda am ddyfodol cadarnhaol. Gyda thua 800 o fyfyrwyr maent yn gallu ysgrifennu'r amserlen o amgylch dewis y myfyrwyr, gan hefyd fod yn ddigon bach i ymateb i bob un o'u myfyrwyr.

**Mae Katharine Day yn athrawes Ffrangeg, Cydlynydd 'Dawnus a Thalentog' a Chydlynydd y Cymhwyster Project Estynedig.**

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**

Bl 12 – Grwpiau o allu uchel yn unig (yn seiliedig ar ganlyniadau TGAU). Mae hwn wedi disodli Meddwl yn Feirniadol ar yr amserlen a oedd yn cael ei gynnig fel pwnc ychwanegol i'n myfyrwyr Dawnus a Thalentog.

**Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?**

Un sesiwn wedi'i hamserlennu bob wythnos ar gyfer y cwrs a addysgir i holl fyfyrwyr y Cymhwyster Project Estynedig. Fi fydd yn ei addysgu.

Hefyd, bydd pob myfyriwr yn cael cyfarfod 1:1 yn rheolaidd â goruchwyliwr a ddyrannir iddynt ar amser sy'n gyfleus i'r naill a'r llall.

Mae gan oruchwylwyr rhwng 11 ac 14 o fyfyrwyr i'w goruchwylio – yn dibynnu ar eu hamserlen

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**

Cefais fy argyhoeddi wrth siarad ag athrawon eraill a oedd eisoes yn gwneud y Cymhwyster Project Estynedig ac ar sail sesiwn DPP CBAC mai hwn oedd y Bwrdd Arholi gorau i'w ddefnyddio.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**

Yn dda – rwy'n gobeithio!

Mae Glenda yn CBAC wedi bod yn barod i helpu a gan mai fi yw'r unig aelod o staff sydd wedi cymryd rhyw fath o ran hyd yn hyn, mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy. Mae 3 cydweithiwr arall wedi ymuno â mi wrth oruchwylio'r projectau.

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**

Tebyg, siŵr o fod, ond mae fy ngholeg newydd uno â sefydliad arall, felly mae'n anodd rhagweld y dyfodol.

**A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?**

Mae fy myfyrwyr yn frwd iawn – felly mae'n opsiwn da i ychwanegu ehangder yn y chweched dosbarth.

# DARPARU AC AMSERLENNU'R CYMHWYSTER PROJECT ESTYNEDIG

## Coleg Thomas Adams, Wem, Amwythig

Mae Ysgol a Choleg Thomas Adams yn ysgol hapus, gofalgar gydag enw rhagorol yn y gymuned am ei llwyddiant academaidd a chefnogaeth fugeiliol.

### Tom Cuthbert yw Pennaeth Ffiseg yr ysgol a Chydlynydd y Cymhwyster Project Estynedig

**I ba fyfyrwyr ydych chi'n cynnig y Cymhwyster Project Estynedig a pham?**

Bl 12 yn bennaf, ond mae un grŵp yn gweithredu ym Ml 13.

Mae ein coleg yn cynnig cymwysterau Safon Uwch llinol yn unig, nid cymwysterau UG, felly mae symud y Project Estynedig i Fl 12 yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ei gwblhau cyn arholiadau hollbwysig Bl 13. Mae un grŵp yn gweithredu ym Ml 13 ar gyfer y rheini sydd wir eisiau ei wneud yr adeg honno.

**Sut ydych chi wedi amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig yn eich canolfan?**

Rydym yn cynnal un sesiwn addysgu bob wythnos gydag uchafswm o 10 myfyriwr i bob goruchwyliwr. Mae myfyrwyr yn cael un cyfnod astudio annibynnol gorfodol sy'n cael ei oruchwylio, ac mae hefyd disgwyl iddynt neilltuo'r un amser i Gymhwyster y Project Estynedig.

**Pam a sut y dewisoch chi'r model hwn?**

Roedd y model hwn yn cael ei orfodi gan ofynion amserlennu mewn mannau eraill yn yr ysgol a'r coleg.

**Sut mae'n gweithio hyd yn hyn?**

Mae mwy o amser addysgu bob amser yn ddymunol, ond mae'r model yn caniatáu i ni ymdrin â'r elfennau a addysgir sy'n cael eu gorfodi gan ein cynllun gwaith. Y niferoedd gorau posibl mewn grwpiau yw 6-8 gan fod hyn yn caniatáu trafodaeth, ond hefyd yn caniatáu i'r goruchwyliwr weithio gyda'r myfyrwyr yn unigol yn rheolaidd.

**Beth yw eich cynlluniau o ran cynnig, darparu ac amserlennu'r Cymhwyster Project Estynedig dros y 3 blynedd nesaf?**

I aros yn sefydlog, fwy na thebyg. Dewiswyd y Project Estynedig gan tua hanner ein myfyrwyr Bl 12, fel sydd wedi digwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Byddwn yn ceisio trefnu'r amserlen i barhau â hyn.

**A oes gennych unrhyw gyngor i ganolfannau eraill o ran cynnig y Cymhwyster Project Estynedig i fyfyrwyr ac ar amserlennu Cymhwyster y Project Estynedig?**

Cadwch lygaid ar amseru'r flwyddyn. Gan ddechrau ym mis Medi Bl12, ein dyddiad cyflwyno yw cyn y Pasg. Mae'n rhaid hysbysu myfyrwyr o'r amser cymharol fyr sydd ganddyn nhw i gwblhau eu projectau, ac mae angen eu hatgoffa'n gyson!

Mae hefyd yn beth da datblygu cnewyllyn o staff y mae eu hamserlen yn cynnwys y Cymhwyster Project Estynedig bob blwyddyn. Mae'r profiad maent yn ei gael o fudd i'r myfyrwyr yn ogystal ag ar gyfer gweinyddiaeth y cwrs.